




Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

**Gofynion cwrs
penodol a enwir
ar gyfer y Dyfarniad
Gweithiwr Proffesiynol
Iechyd Meddwl
Cymeradwy**



Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House

Wood Street

Caerdydd

CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444

Minicom: 029 2078 0680

E-bost: gwybodaeth@

gofalcymdeithasol.cymru

gofalcymdeithasol.cymru

Twitter: @GofCymdeithasol

© 2020 Gofal Cymdeithasol Cymru
Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn system adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhychu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformat hawdd ei ddeall, print bras a fformatau eraill, os oes angen.

Mae copïau ar gael yn Saesneg hefyd.

Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Rheoliadau.....	5
Gofynion ar gyfer y Dyfarniad Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy yng Nghymru.....	6
1. Credydau a lefel.....	6
2. Dethol.....	6
3. Rheolau ôl-gymhwyso cyffredinol.....	6
4. Gwerthoedd.....	6
5. Canlyniadau dysgu.....	7

Cyflwyniad

Fel rheoleiddiwr proffesiynol addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol, rydym yn gyfrifol am osod y safonau ar gyfer hyfforddiant gwaith cymdeithasol ar lefelau cymhwys ac ôl-gymhwys. Rydym eisiau sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru wedi'u hyfforddi i safon uchel a chyson, a'u bod yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

Mae *Rheolau Cymeradwyo ac Archwilio Cyrsiâu Ôl-gymhwys ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol (Cymru) 2018* yn darparu'r gofynion a'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo a rheoleiddio addysg a hyfforddiant ôl-gymhwys. Mae'r Rheolau hefyd yn ein galluogi i osod gofynion cwrs penodol a enwir ar gyfer rhaglenni dysgu cenedlaethol. Gall hyn gynnwys nodi canlyniadau dysgu, lefel a maint credydau, a/neu ddulliau asesu. Mae angen i raglenni fodloni'r gofynion cwrs penodol hyn, yn ogystal â'r gofynion cyffredinol ar gyfer cymeradwyo.

Mae'r Dyfarniad Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy yng Nghymru yn gwrs penodol a enwir.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gofynion penodol y bydd yn rhaid i ddarparwyr rhaglenni eu bodloni er mwyn cael eu cymeradwyo gennym i gynnig y Dyfarniad Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy.

Cyflwynwyd rôl gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007, sy'n diwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae *Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cymeradwyo Personau i fod yn Weithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy) (Cymru) 2008* yn cadarnhau pa weithwyr proffesiynol sy'n gallu gweithredu fel gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy.

Mae'r rhain fel a ganlyn:

- gweithwyr cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru â ni
- nyrsys sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

- therapyddion galwedigaethol sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd
- seicolegwyr siartredig.

Rydym yn gyfrifol am lunio gofynion hyfforddiant y dyfarniad ar gyfer yr holl weithwyr proffesiynol sy'n ymgymryd â'r dyfarniad ac rydym wedi addasu'r meini prawf dethol i adlewyrchu hyn.

Diben y Dyfarniad Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy yng Nghymru yw cyflenwi gweithwyr proffesiynol profiadol perthnasol â'r wybodaeth a'r sgiliau ychwanegol sydd eu hangen arnynt i arfer cyfrifoldebau gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy, yn unol â Deddf Iechyd Meddwl 2007 a'r ddeddfwriaeth ddilynol berthnasol.

Bydd yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo gweithwyr proffesiynol unigol sydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant hwn yn llwyddiannus, yn unol â *Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cymeradwyo Personau i fod yn Weithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy) (Cymru) 2008*.

Rheoliadau

1. Rhaid i geisiadau i ddarparu'r Dyfarniad Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy yng Nghymru gael eu gwneud yn ysgrifenedig, mewn fformat a ddarperir gan Ofal Cymdeithasol Cymru
2. Gall y dyfarniad gael ei ddarparu gan un neu fwy o sefydliadau addysg uwch (SAU) yn unig
3. Rhaid i ddarparwr y rhaglen ddangos, trwy gytundebau partneriaeth wedi'u llofnodi, bod y dyfarniad wedi'i ddatblygu ac y bydd yn cael ei weithredu mewn partneriaeth â chyflogwyr sy'n gyfrifol am gymeradwyo gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy
4. Rhaid i ddarparwr y rhaglen gynnwys pobl sydd â phrofiad o dderbyn gwasanaethau cymdeithasol, a gofawyr, wrth ddatblygu a darparu'r rhaglen
5. Rhaid i ddarparwr y rhaglen fodloni'r holl ofynion cyffredinol ar gyfer cymeradwyo'r dyfarniad o dan *Reolau Cymeradwyo ac Archwilio Cyrsiau Ôl-gymhwyso ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol (Cymru) 2018* (ac eithrio rheolau cyffredinol ar gyfer dethol, sydd wedi'u haddasu)
6. Bernir bod darparwr sydd eisoes wedi'i gymeradwyo i gynnig modiwlau ôl-gymhwyso wedi bodloni'r gofynion hynny at ddibenion y dyfarniad penodol a enwir hwn. Os yw mwy nag un sefydliad yn ymwneud â chais, bydd angen i bob darparwr ddangos eu bod yn bodloni'r holl ofynion, neu eu bod wedi'u cymeradwyo eisoes fel rhai sy'n bodloni'r holl ofynion
7. Bydd y darparwr, os caiff ei gymeradwyo, yn ddarostyngedig i ofynion sicrhau ansawdd Gofal Cymdeithasol Cymru a nodir yn *Rheolau Cymeradwyo ac Archwilio Cyrsiau Ôl-gymhwyso ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol (Cymru) 2018*.

Gofynion ar gyfer y Dyfarniad Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy yng Nghymru

1. Credydau a lefel

Bydd y dyfarniad yn werth o leiaf 60 credyd ac fe'i astudir ar lefel 7 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (ôl-raddedig).

2. Dethol

Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer eu dethol ddangos:

- eu bod wedi'u cofrestru â'u corff proffesiynol perthnasol
- bod ganddynt wybodaeth a phrofiad digonol o'r sector iechyd meddwl i elwa ar y rhaglen
- bod eu hastudio academaidd blaenorol neu eu dysgu trwy brofiad wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer astudio ar lefel 7.

3. Rheolau cyffredinol ôl-gymhwyso

Rhaid i ganlyniadau dysgu adlewyrchu gofynion generig yr holl hyfforddiant ôl-gymhwyso:

- yr ymchwil a'r sylfaen dystiolaeth bresennol ar gyfer ymarfer
- persbectif pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr
- deddfwriaeth a pholisi presennol
- y cyd-destun rhyngbroffesiynol
- y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*
- cyd-destun ymarfer Cymru – nodweddion ac anghenion Cymru, ei hieithoedd, ei diwylliant, ei daearyddiaeth a'i sefydliadau.

4. Gwerthoedd

Trwy gydol eu hyfforddiant, rhaid i'r ymgeisydd ddangos ymrwymiad a chydymffurfiad â'u codau ymarfer proffesiynol.

Hefyd, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983 a'r codau ymarfer cysylltiedig. Mae'r codau ymarfer hyn yn rhoi arweiniad i weithwyr proffesiynol ar sut y dylent weithredu wrth gyflawni swyddogaethau a dyletswyddau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Wrth gydymffurfio â'r codau ymarfer hyn, rhaid i'r ymgeisydd ddangos yn benodol:

- ymrwymiad i geisio'r opsiwn lleiaf cyfyngol, sy'n gyson ag asesiad o anghenion a diogelwch yr unigolyn, a diogelwch pobl eraill
- eu gallu i arfer annibyniaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch cymhwyso o dan y Ddeddf
- parch at bobl sydd angen gofal a chymorth – eu rhinweddau, eu galluoedd a'u cefndiroedd amrywiol
- ymrwymiad i helpu unigolion a gofalwyr i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar ansawdd eu bywyd a'u rhyddid
- ymrwymiad i nodi a gwrthweithio unrhyw benderfyniad a allai fod yn seiliedig ar ymarfer gormesol
- ymrwymiad i ddeall persbectif a phrofiad unigolion sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

5. Canlyniadau dysgu

Nodir y prif gymwyseddau sy'n ofynnol ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy yn atodlen 2 *Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cymeradwyo Personau i fod yn Weithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy) (Cymru) 2008*. Mae'r canlyniadau dysgu isod wedi'u cynllunio i gyflawni'r prif gymwyseddau a chanlyniadau o ran gwybodaeth.

Rhaid i'r ymgeisydd ddangos dealltwriaeth feirniadol o'r meysydd gwybodaeth canlynol, a'u gallu i'w gweithredu:

a. Gwerthoedd a moeseg

- persbectif pobl sydd angen gofal a chymorth ar wasanaethau iechyd meddwl
- persbectif gofalywr ar wasanaethau iechyd meddwl
- y dadleuon proffesiynol a moesegol sy'n berthnasol i rôl y gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy
- effaith pob math o wahaniaethu ar nifer yr achosion, nodi, ac ymyrraeth mewn materion iechyd meddwl a salwch meddwl
- rôl strwythurau sefydliadol o ran hyrwyddo iechyd meddwl
- effaith gwahaniaethau o ran pŵer yng nghydestun iechyd meddwl
- materion ieithyddol, diwylliannol a chrefyddol (gan gynnwys materion yn ymwneud a'r Gymraeg a diwylliant Cymru) mewn perthynas ag iechyd meddwl a salwch meddwl.

b. Deddfwriaeth a systemau

- deddfwriaeth gyfredol Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) a Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag iechyd meddwl, codau ymarfer cysylltiedig, a deddfwriaeth neu ganllawiau cysylltiedig, gan gynnwys cyfraith achosion briodol

- deddfwriaeth a pholisïau eraill sy'n berthnasol i rôl gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy
- polisïau, canllawiau a gweithdrefnau'r DU, cenedlaethol a lleol sy'n ymwneud â swyddogaethau iechyd meddwl statudol
- rolau a swyddogaethau sefydliadau a gweithdrefnau ffurfiol o fewn y system iechyd meddwl.

c. Cyfrifoldebau proffesiynol

- rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy
- rolau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill
- modelau o weithio rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol effeithiol.

d. Deall anhwylder meddwl

- y dystiolaeth ar gyfer, a goblygiadau, y prif fodelau anhwylder meddwl
- model cymdeithasol anableded
- effaith a chyflwyniad salwch iechyd meddwl mewn grwpiau penodol, megis plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl ag anabledau dysgu, pobl ag anabledau corfforol, troseddwy'r â materion iechyd meddwl, pobl ddigartref, ceiswyr lloches a phobl sydd wedi profi trawma
- effaith a chyflwyniad anhwylder meddwl mewn perthynas ag ethnigrwydd, diwylliant ac iaith
- y berthynas rhwng anhwylder meddwl a chamddefnyddio alcohol, cyffuriau a sylweddau, a'r goblygiadau o ran ymyriadau.

e. Asesu ac ymyrraeth

- modelau asesu a chynllunio gofal effeithiol yng nghyd-destun gwasanaethau iechyd meddwl
- y prif fodelau ymyrraeth mewn anhwylder meddwl, a'r dystiolaeth o'u heffeithiolrwydd
- yr adnoddau ffurfiol ac anffurfiol sydd ar gael i gefnogi pobl mewn argyfwng iechyd meddwl fel dewis arall yn lle eu derbyn i'r ysbyty
- theori argyfwng a modelau rheoli argyfwng
- damcaniaethau rheoli risg, gan gynnwys y sylfaen dystiolaeth ar gyfer dangosyddion risg a modelau asesu risg
- goblygiad ymyrraeth ar gyfer ffurf benodol o risg, gan gynnwys hunan-niweidio a hunanladdiad, hunan-esgeulustod dibynyddion, risg o drais neu gam-drin tuag at eraill
- modelau cyfathrebu effeithiol
- goblygiadau lefelau uchel o gynnwrf emosiynol o ran cyfathrebu'n effeithiol ag unigolion a gofalwyr, a dulliau ar gyfer lleihau cynnwrf emosiynol.

f. Canlyniadau o ran sgiliau

Ar ôl cwblhau'r rhaglen, rhaid i'r ymgeisydd ddangos y gallu i gymhwyso'r wybodaeth uchod trwy ymarfer y sgiliau canlynol:

Gweithio mewn partneriaeth â phobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr

- y gallu i weithio â pharch gydag unigolion a pharchu eu dealltwriaeth o'u sefyllfa, eu hanghenion a'r canlyniadau a ddymunir
- y gallu i weithio â pharch gyda gofalwyr a pharchu eu dealltwriaeth o'u sefyllfa, eu hanghenion a'r canlyniadau a ddymunir
- y gallu i weithio'n gadarnhaol gydag unigolion sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr i werthuso llwyddiant ymyriadau a chanlyniadau, gan gynnwys defnydd y gweithiwr ohono'i hun.

Sgiliau cyfathrebu

- y gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn ysgrifenedig ac ar lafar, fel y bo'n briodol, gydag unigolion a gofalwyr, gan gynnwys y sawl sydd mewn cyflwr o gynnwrf emosiynol mawr (mae hyn yn cynnwys y gallu i gyfleu eu rôl a'u cyfrifoldebau eu hunain a'r sefydliad)
- y gallu i alluogi unigolion a gofalwyr, lle bo angen, i gyfleu eu hanghenion, eu barn a'u dewisiadau yn eu dewis iaith, gan gynnwys defnyddio eiriolaeth
- y gallu i gyfathrebu trwy gyfieithwyr, lle bo angen
- y gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn ysgrifenedig ac ar lafar, fel y bo'n briodol, gyda gweithwyr proffesiynol eraill
- y gallu i hyrwyddo rôl ac ymreolaeth y gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy yn effeithiol
- y gallu i gyflwyno gwybodaeth a dadansoddiad ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn glir ac yn effeithiol mewn sefyllfaoedd ffurfiol (megis gwrandawiaadau llys).

Sgiliau rheoli gwrthdaro a thrafod

- y gallu i gydnabod a chynllunio ar gyfer sefyllfaoedd o wrthdaro posib
- y gallu dawelu cynnwrf emosiynol ynddynt eu hunain ac mewn eraill
- y gallu i ddangos parch tuag at farn pob parti
- y gallu i herio barn eraill yn adeiladol
- y gallu i egluro, cyfiawnhau a, lle bo hynny'n briodol, addasu eu barn eu hunain
- y gallu i weithio ar y cyd ag ystod o rwydweithiau a grwpiau cymunedol, asiantaethau ac eiriolwyr
- y gallu i nodi datrysiadau posibl, a gweithio gyda'r holl bartïon i'w cyflawni

-
- y gallu i adnabod a gweithredu mewn sefyllfaoedd lle mae diogelwch un neu fwy o bartïon (gan gynnwys eu hunain) mewn perygl.

Asesu

- y gallu i ddewis a defnyddio modelau asesu priodol yng nghyd-destun anhwylder meddwl
- y gallu i asesu'n effeithiol mewn sefyllfaoedd o argyfwng
- y gallu i esbonio'r rhesymeg dros ganlyniadau asesiad yn effeithiol i bobl sy'n derbyn gofal a chymorth, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill
- y gallu i nodi sefyllfaoedd a mathau o risg, a'r ymateb priodol.

Ymyriadau

- y gallu i nodi a chyfiawnhau mathau priodol o ymyrraeth
- y gallu i reoli'r prosesau cyfreithiol ac ymarferol perthnasol yn effeithiol gan gynnwys cyfranogiad gweithwyr proffesiynol eraill, yn ogystal ag unigolion, perthnasau a gofalwyr
- y gallu i gynllunio, trafod a rheoli mynediad gorfodol i'r ysbyty, derbyn i warcheidiaeth neu drefniadau ar gyfer triniaeth dan oruchwyliaeth yn y gymuned
- gweithredu a cheisio adborth ar ymyriadau, a'u gwerthuso a'u haddasu, fel y bo'n briodol.

Gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill (gan gynnwys eiriolwyr a phobl yn y sectorau gwirfoddol, annibynnol ac anffurfiol)

- y gallu i weithio'n gadarnhaol gyda gweithwyr proffesiynol eraill, gan gydnabod eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u dulliau gweithredu gwahanol
- y gallu i reoli a chydgyssylltu'r prosesau cyfreithiol ac ymarferol perthnasol yn effeithiol, gan

gynnwys cyfranogiad gweithwyr proffesiynol eraill, yn ogystal ag unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth, a pherthnasau a gofalwyr

- y gallu i hyrwyddo dull cyfannol a'r model cymdeithasol o weithio gyda phobl ag anhwylder meddwl.
- y gallu i nodi a chyfathrebu, mewn ffordd effeithiol ac amserol, gwybodaeth neu farn arwyddocaol i weithwyr proffesiynol eraill
- y gallu i nodi a gweithredu ar wybodaeth arwyddocaol gan weithwyr proffesiynol eraill, lle bo hynny'n briodol
- y gallu i nodi a chael mynediad i adnoddau, gwybodaeth a sgiliau sydd gan bobl eraill.

Hunanreoli

- y gallu i flaenoriaethu galwadau ar amser ac adnoddau sy'n niferus ac yn groes i'w gilydd
- y gallu i wneud a chyfiawnhau penderfyniadau mewn sefyllfaoedd cymhleth
- y gallu i gydnabod a rheoli effeithiau personol, emosïynol y gwaith
- y gallu i werthuso, myfyrio, a lle bo hynny'n angenrheidiol, addasu perfformiad a chanlyniadau, gan ddefnyddio adborth gan bobl sy'n derbyn gofal a chymorth, a gofalwyr, gweithwyr proffesiynol eraill a goruchwyliaeth, fel y bo'n briodol.

Asesu ymgeiswyr

- mae dulliau asesu yn gallu asesu nifer o ganlyniadau dysgu ar yr un pryd
- rhaid i ddulliau asesu fod yn briodol i'r canlyniad/canlyniadau dysgu sy'n cael eu hasesu, ac yn uniongyrchol berthnasol i ymarfer fel gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy
- rhaid i ymarfer yr ymgeisydd mewn perthynas

â rôl a chyfrifoldebau gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy gael ei arsylwi a'i asesu'n uniongyrchol ar dri achlysur o leiaf, a rhaid i ddau ohonynt o leiaf ymwneud â gwaith uniongyrchol â phobl sy'n derbyn gofal a chymorth

- rhaid i arsylwadau gael eu gwneud gan asesydd sy'n ymarfer ar hyn o bryd, sy'n brofiadol ac wedi'i hyfforddi fel gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy. Bydd yr asesydd yn darparu adroddiad am sgiliau a gwybodaeth yr ymgeisydd, a ddylai gynnwys hefyd arsylwadau ac adborth gan unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth, a gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol eraill sydd wedi arsylwi ymarfer yr ymgeisydd
- i ennill y Dyfarniad Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy, rhaid i'r ymgeisydd lunio portffolio o dystiolaeth i ddangos bod pob un o'r canlyniadau dysgu wedi'u cyflawni
- rhaid i bortffolio'r ymgeisydd gynnwys adroddiad myfyriol a beirniadol gan yr ymgeisydd am eu dealltwriaeth o rôl a chyfrifoldebau gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy a'u hymarfer eu hunain.